**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Michelle Crotty
Prif Weithredwr
Swyddfa Farnwrol Cymru a Lloegr

15 Ionawr 2026

Annwyl Michelle Crotty,

Profiadau pobl o’r system cyfiawnder troseddol

Ystyriodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol dystiolaeth yn ddiweddar am brofiadau pobl o'r system cyfiawnder troseddol yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2025.

Mae’r adroddiad Factfile**,** a gyflwynwyd gan Dr. Rob Jones, yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer y carcharorion o Gymru sy'n aros eu prawf yn y ddalfa wedi codi 10 y cant yn 2024 (804), ynghyd â pha mor aml y defnyddir dedfrydau byr o garchar.

Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i ddeall y rhesymeg farnwrol sy’n sail i arferion dedfrydu a chadw yn y ddalfa yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer menywod. Yn benodol,

- Beth yw'r egwyddorion neu'r amgylchiadau allweddol lle mae barnwyr yn ystyried bod dedfrydau byr o garchar yn briodol, o gofio tystiolaeth sy'n awgrymu effaith adsefydlu gyfyngedig?
- Pa ffactorau sy'n dylanwadu fwyaf ar benderfyniadau i gadw diffynyddion yn y ddalfa, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â menywod?

Diolch ichi ymlaen llaw am roi sylw i’r cais hwn. Byddem yn gwerthfawrogi cael eich ymateb erbyn 13 Chwefror.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Chair, Equality and Social Justice Committee